



## ADRAN YR URDD

Dyma glwb sy'n cynnig amryw o weithgareddau ac yn llawn hwyl i holl blant yr ysgol. Er mwyn mynychu'r clwb mae'n angenrheidiol bod eich plentyn wedi ymaelodi â'r Urdd. Mae'r gweithgareddau a gynigir i blant yng nghlwb yr Adran yn cynnwys:

- Gweithgareddau cwis, chwaraeon
- Gweithgareddau celf a chrefft
- Ymweliadau oddi wrth unigolion o'r gymuned
- Ymweliadau â ffermydd, busnesau lleol.
- Gemau drama a cherddoriaeth
- Gweithgareddau coginio a chwaraeon
- Paratodau tuag at Eisteddfod yr Urdd
- Tripiâu e.e. Y sinema a'r pwll nofio.

Mae Clwb yr Adran yn cael ei gynnal bob nos Fercher i blant CA2 o 3:30 y.p. hyd at 54:45 y.h. a dim cost wythnosol. Cynigiwn weithgareddau misol i blant CS o 3:30 - 4:45.

Arweinyddion y Clwb: Mrs Ann Jones a Mrs Eleri Davies.